# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 9 Chwefror 2015** |
| Amser: | **13.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2015(3)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Angela Burns AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu**<br>**Kevin Tumelty, Pennaeth Diogelwch, Pennaeth Diogelwch** |
| Eraill yn bresennol: | **Jon Stratford, Assistant Chief Constable, Heddlu De Cymru**<br>**Josh Jones, Chief Superintendent, Heddlu De Cymru**<br>**Simon Rees, Wales Counter Terrorism Unit**<br>**Yr Arolygydd Ian Mackenzie, Heddlu De Cymru** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

**Roedd y Dirprwy Lywydd wedi ymddiheuro.**

1.2 Datgan buddiannau

**Nid oedd buddiannau i'w datgan.**

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr yn gywir.**

## 2 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch

Rhoddodd Simon Rees gyflwyniad ar ddiogelwch i'r Comisiwn ac roedd tua 300 o staff y Cynulliad wedi'i weld yr wythnos gynt. Paratowyd canllawiau ychwanegol i gyd-fynd â'r fideo a'r cyflwyniad. Roedd y Comisiynwyr yn awyddus i sicrhau bod pawb a oedd yn gweithio yn ein hadeiladau'n cael gwybodaeth ddigonol am y mater. Cadarnhawyd bod cynlluniau'n cael eu paratoi i'r Aelodau, grwpiau plaid a staff cymorth weld y fideo a'r canllawiau cyn gynted â phosibl dros yr wythnosau nesaf.

Yn dilyn y cyfarfod ar 29 Ionawr, cafwyd rhagor o wybodaeth gan Heddlu De Cymru am sicrhau diogelwch yr ystâd. Trafododd y Comisiwn y rhain. Cytunodd y Comisiynwyr y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith o gryfhau diogelwch ar unwaith a chytunwyd ar gynllun cyfathrebu â'r heddlu.

Gofynnodd y Comisiynwyr am bapur llawnach ar faterion diogelwch, gan gynnwys archwilio cefndir unigolion, a chaiff hwn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Ebrill.

## 3 Ymgysylltu â phobl Cymru

Ystyriodd y Comisiwn bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ymgysylltu â cyhoedd. Roedd y Comisiynwyr yn cydnabod bod cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r Comisiwn, er y byddai'n anodd sicrhau bod y rhaglen weithgareddau uchelgeisiol yn cael ei chwblhau cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Roedd y Comisiynwyr yn falch o glywed am enghreifftiau o weithgareddau arloesol, fel y gwaith o hyrwyddo ein pwyllgorau, sy'n destun cenfigen ymhlith cyrff seneddol eraill. Cytunwyd y dylai unrhyw wybodaeth yn y cyswllt hwn yn y dyfodol gynnwys dadansoddiad manwl sy'n ategu'r safbwynt hwn.

Gan nodi bod y cyfryngau hyperleol a chymdeithasol yn ddatblygiadau pwysig a'u bod yn rhan o becyn gyfathrebu ehangach i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a thraddodiadol, cytunodd y Comisiynwyr y dylai eu hadroddiad blynyddol ddangos pa mor bellgyrhaeddol ac effeithiol oedd y rhain a gweithgareddau ymgysylltu eraill.

Cytunodd y Comisiwn fod y cyfeiriad a'r blaenoriaethau strategol a nodwyd ar gyfer y gwaith ymgysylltu yn briodol ac roeddent yn fodlon â'r manylion a gafwyd yn y papur am y gweithgareddau y bwriadwyd eu cyflwyno cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad.

## 4 Unrhyw fater arall

Dim.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Coimsiwn ddydd Iau, 5 Mawrth 2015, pan fydd y Comisiynwyr yn canolbwyntio ar y paratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad.